Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Adroddiad monitro

Ebrill 2024

senedd.cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....4**

**2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE....5**

Y Cytundeb Ymadael....5

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu....6

Adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu 2025-26....8

Llywodraethiant y Cytundeb Masnach a Chydweithredu....8

Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE....8

Cydweddu ac ymwahanu rhwng y DU a'r UE....9

Anghydfod rhynglywodraethol ynghylch safleoedd rheoli ar y ffin....10

Diweddariadau eraill....10

**3. Cysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngseneddol....12**

Cysylltiadau rhynglywodraethol....12

Cysylltiadau rhyngseneddol....13

**4. Deddf Marchnad Fewnol y DU....15**

**5. Deddfwriaeth....17**

Deddfwriaeth y Senedd....17

**6. Cydsyniad Deddfwriaethol....19**

**7. Y Cyfansoddiad....20**

**8. Diwygio'r Senedd ac etholiadau....21**

**9. Cyfiawnder....22**

Cymru....22

Y DU....24

Yr Alban....24

**10. Atodiad: Geirfa....25**

# 1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gylch gwaith eang sy’n ymdrin ag amrywiaeth o feysydd. Bwriedir i’r adroddiad monitro hwn roi’r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau’r Pwyllgor am y prif ddatblygiadau polisi sy’n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 17 Ebrill 2024.

Bydd y Pwyllgor yn trafod y materion hyn ac unrhyw gamau yr hoffai eu cymryd mewn ymateb iddynt. Cyhoeddir yr adroddiad hwn er mwyn hysbysu rhanddeiliaid am rai o’r materion y mae’r Pwyllgor wrthi’n eu hystyried.

Mae rhestr o dermau allweddol wedi'i chynnwys fel Atodiad.

# 2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

## Y Cytundeb Ymadael

**Mae gweithredu Fframwaith Windsor yn mynd rhagddo wedi i'r trefniadau rhannu grym gael eu hadfer yn Stormont.**

Ar 31 Ionawr 2024, gosododd Llywodraeth y DU Bapur Gorchymyn, 'Safeguarding the Union', a oedd yn mynd i'r afael â phryderon y DUP ynghylch Fframwaith Windsor ac a arweiniodd at ddychwelyd i rannu grym yn Stormont. Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl yn crynhoi goblygiadau 'Safeguarding the Union' i Gymru.

Hefyd, ar 7 Chwefror, penodwyd Steve Baker AS yn Weinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet â chyfrifoldeb am weithrediad Fframwaith Windsor. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Reoliadau Fframwaith Windsor (Gweithredu) 2024, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion y DU i wneud unrhyw beth y gallai un o Weinidogion Gogledd Iwerddon ei wneud at ddiben cadw at ddarpariaethau perthnasol Fframwaith Windsor neu eu gweithredu.

Sefydlwyd Pwyllgor Craffu Democrataidd ar Fframwaith Windsor Cynulliad Gogledd Iwerddon i fonitro ac ystyried newidiadau i gyfraith yr UE a allai fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgor Craffu Democrataidd wedi trafod deddfwriaeth ar amalgam deintyddol, labelu bwyd organig ar gyfer anifeiliaid anwes a chnydau a gynhyrchir ym Moldofa ac Wcráin.

Ar 19 Mawrth 2024, methodd pleidlais ar reol newydd gan yr UE ar ddynodiadau daearyddol â sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol, gyda gwrthwynebwyr, gan gynnwys y DUP, yn credu y gallai greu ffin reoleiddiol o fewn y DU. Mater i Lywodraeth y DU fydd penderfynu a ddylai'r gyfraith fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon neu a ddylid rhoi feto arni, a allai arwain at dalu'r pwyth yn ôl gan yr UE.

Ar 19 Rhagfyr 2023, ysgrifennodd Is-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Fframwaith Windsor at yr Ysgrifennydd Tramor, yr Arglwydd Cameron, yn dilyn ymchwiliad yr Is-bwyllgor i ymwahanu rheoleiddiol a Fframwaith Windsor.

## Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**Cafodd pumed cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, a oedd i fod i gael ei gynnal ym mis Mawrth, ei ganslo gan Lywodraeth y DU.**

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chynullydd Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban ill dau at Gyd-gadeirydd Dirprwyaeth y DU, Syr Oliver Heald, yn gresynu at y penderfyniad.

**Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei drydydd** adroddiad ar weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar gyfer 2023**. Yn ogystal â datblygiadau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r Cytundeb yn gweithio, mae'r adroddiad yn nodi datblygiadau deddfwriaethol yn y DU a allai effeithio ar ei weithrediad yn y dyfodol.**

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o ddatblygiadau yn y ffordd y mae strwythurau llywodraethu, dulliau gorfodi, trefniadau setlo anghydfodau a chwynion y Cytundeb yn gweithio. Wrth adrodd am gynnydd y Cytundeb a'r ffordd y mae'n gweithio, cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at ddatblygiadau deddfwriaethol yn y DU. Nododd fod dwy ddeddf bwysig wedi'u pasio, a dau fil wedi'u cyflwyno a allai effeithio ar y ffordd y mae'r Cytundeb yn gweithredu mewn sawl maes. Roedd hyn yn cynnwys Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr a'r Bil Rwanda (Lloches a Mewnfudo).

O ran darpariaethau'r Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo), dywedodd yr adroddiad:

> *The Commission notes these developments with concern and expects the United Kingdom to respect its international obligations, in particular those under the European Convention on Human Rights, which forms the basis for cooperation in the field of law enforcement and judicial cooperation in criminal matters under the TCA.*

Yn rhinwedd ei swydd fel ASE, ym mis Ionawr 2024, ysgrifennodd arweinydd Dirprwyaeth yr UE i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol, Natalie Loiseau, at Stella Creasey AS ynghylch y Bil a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r llythyr yn rhoi trosolwg o ddyletswyddau'r Cytundeb i gydymffurfio â'r Confensiwn hwnnw, ac yn dweud:

> *Full compliance with the ECHR is the cornerstone of the future relationship we are building. […] I am therefore worried by any statements aiming at hindering the application of the Convention calling for a withdrawal, in particular because it may lead to dramatic consequences for EU and UK citizens in Northern Ireland.*
>
> *Such action would cast a shadow on the UK's trustworthiness and ability to abide by international treaties and conventions it has ratified. Under the [TCA], the [EU] would therefore be entitled to adopt any relevant measure to mitigate the risks.*

Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil, gofynnodd y Pwyllgor hwn am ei barn fel rhan o'i waith craffu ar gytundebau rhyngwladol. Rhan o ddiben y Bil yw gweithredu cytundeb partneriaeth lloches y DU a Rwanda.

Dywedodd y cyn Brif Weinidog ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu barn Llywodraeth Cymru am y cytundeb a'r Bil, gan ddweud:

> *Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru wedi datgan dro ar ôl tro – a dyma yw ein barn o hyd – nad yw cynigion i gadw'n gaeth a symud ymaith bawb sy'n cyrraedd drwy ddulliau afreolaidd yn ymarferol nac yn foesegol. Rydym wedi ei gwneud yn glir bod angen i system effeithiol gydymffurfio â Chonfensiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hefyd angen i system effeithiol gynnwys cytundebau dychwelyd effeithiol â gwledydd diogel lle y mae cysylltiadau yn bodoli, a llwybrau diogel a chyfreithlon digonol i'r DU.*
>
> *[…]*
>
> *Fodd bynnag, rydym yn bryderus o hyd na all yr Ysgrifennydd Cartref ddatgan bod y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac y dylai dyfarniad y Goruchaf Lys ei gwneud yn glir a yw Rwanda yn ddiogel ai peidio.*

Mae canllaw i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a hawliau dynol ar gael gan Ymchwil y Senedd.

### Adolygiad o’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu 2025-26

**Mae Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant yr Alban yn cynnal ymchwiliad i’r Adolygiad o’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a’r DU.**

Dywed y pwyllgor ei fod yn cynnal yr ymchwiliad er mwyn cyfrannu at y trafodaethau ar lefel y DU a’r UE a allai ddigwydd yn y cyfnod cyn i adolygiad o’r fath gael ei gynnal. Mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig wedi mynd heibio ac mae'r ymatebion wedi'u cyhoeddi. Dywedodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd yn ei adroddiad blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol y gallai'r adolygiad fod yn rhan o'i waith yn y dyfodol.

### Llywodraethiant y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**Cyhoeddodd Pwyllgor Craffu ar Faterion Ewropeaidd Tŷ’r Cyffredin ymateb Llywodraeth y DU i’w adroddiad ar gynrychiolaeth y DU yn y UE.**

Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth y DU wella’r ffordd y mae’n cyfathrebu â’r llywodraethau datganoledig a gwneud mwy o ddefnydd o’r strwythurau y cytunwyd arnynt yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Ymatebodd Llywodraeth y DU drwy ddweud bod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a’r UE wedi’i sefydlu i roi cyfle i’r gweinyddiaethau datganoledig i wneud sylwadau ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a’r Cytundeb Ymadael. Yn yr ymateb, dywedodd Llywodraeth y DU hefyd:

> *Whilst there is broad satisfaction from the devolved administration in Wales with the UK Mission’s engagement on the ground in Brussels, it has expressed concern over a perceived lack of communication from the Government when proposing new laws that involve diverging from EU-standards, specifically devolved areas.*

**Cyfarfu Grŵp Cyswllt Pwyllgor Rhanbarthau Ewrop a’r DU ar 24 Ionawr**.

Galwodd am ganiatáu i ranbarthau a dinasoedd chwarae mwy o ran yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

## Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a’r UE

**Cyfarfu’r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a’r UE ar 6 Mawrth.**

Trafodwyd cyfarfodydd nesaf Cyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a Chyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael, y disgwylid iddynt gael eu cynnal "yn gynnar yn 2024". Yn bresennol yn y cyfarfod roedd cyn Weinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, a alwodd ar Lywodraeth y DU i gynnwys y llywodraethau datganoledig yng nghyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r paratoadau ar eu cyfer. Cododd hefyd yr angen am gytundeb cydnabyddiaeth ar y cyd rhwng y DU a'r UE ar asesu cydymffurfiaeth, pwysigrwydd cadw trefniadau digonolrwydd data'r UE a phryderon parhaus Llywodraeth Cymru ynghylch rheolau mewnforio'r UE sy'n effeithio ar allforio molysgiaid dwygragennog. Cytunodd y cyfarfod ar y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol hwn.

## Cydweddu ac ymwahanu rhwng y DU a'r UE

**Cyhoeddodd UK in a Changing Europe ei olrheiniwr diweddaraf ar ymwahanu rhwng y DU a'r UE ar gyfer pedwerydd chwarter 2023.**

Canfu:

- naw achos o ymwahanu gweithredol (lle y mae'r DU, neu ryw ran ohoni, yn newid ei rheolau);
- deg achos o ymwahanu goddefol (lle y mae'r UE yn newid ei reolau ac nad yw'r DU yn dilyn);
- dau achos o ymwahanu gweithdrefnol (lle nad oes ymwahanu o ran polisi ond mae ymwahanu o ran y prosesau ar gyfer rheoli hynny); a
- phedwar achos o gydweddu gweithredol.

Crybwyllwyd Cymru mewn perthynas â thri achos o ymwahanu gweithredol:

- O dan newidiadau i gynlluniau taliadau fferm, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar Loegr yn unig ond yn cydnabod bod cynlluniau ar wahân ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Mae'r adroddiad yn nodi y bydd y Bil Lles Anifeiliaid (Allforio Da Byw) yn gymwys yng Nghymru ac yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru i wneud rheoliadau priodol.
- Mae'r adroddiad yn nodi bod Rheoliadau Hawliau Cyflogaeth 2023, a newidiodd y ffordd y mae tâl gwyliau'n cael ei gyfrifo ar gyfer gweithwyr sy'n

gweithio am ran o'r flwyddyn a gweithwyr afreolaidd, yn gymwys yng Nghymru.

Cafodd adran ar gysylltiadau rhynglywodraethol ei chynnwys mewn adroddiad arall gan UK in a Changing Europe, 'Brexit and the State'.

## Anghydfod rhynglywodraethol ynghylch safleoedd rheoli ar y ffin

**Dechreuodd cam cyntaf rheolaethau masnach ar y ffin newydd y DU ar 31 Ionawr.**

Cam nesaf Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) yw 30 Ebrill, pan fydd gwiriadau dogfennol, gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod yn cael eu cynnal ar rai cynhyrchion. Mae amserlen ar wahân ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd porthladdoedd Cymru o ynys Iwerddon, a bydd y cam nesaf ym mis Hydref 2024. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn erthyglau Ymchwil y Senedd, Cymru a'r model newydd ar gyfer ffiniau masnach y DU, a Pam fod angen safleoedd rheoli ffiniau ar Gymru?

Ar 7 Chwefror, clywoddd Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd dystiolaeth gan y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet, y Farwnes Lucy Neville-Rolfe, ynghylch BTOM. Cadarnhaodd y Gweinidog a chyn Weinidog Economi Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor hwnnw nad yw anghydfod parhaus ynghylch costau safleoedd rheoli ar y ffin wedi'i ddatrys. Wrth graffu ar y gyllideb ddrafft, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi gorfod defnyddio £6.4m o gronfeydd wrth gefn i dalu costau yr oedd Llywodraeth y DU, yn ôl Llywodraeth Cymru, eisoes wedi cytuno i'w talu.

## Diweddariadau eraill

**Mae llu ffiniau'r DU a Frontex, Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a Ffiniau Ewropeaidd yr UE wedi llofnodi trefniant gweithio newydd.**

Mewn datganiad, dywedodd y Comisiwn Ewropeaidd fod y cytundeb yn darparu fframwaith hirdymor ar gyfer cydweithredu agos rhwng Frontex ac awdurdodau'r DU er mwyn mynd i'r afael â mudo anghyfreithlon a throseddu trawsffiniol. Mae'r datganiad yn disgrifio'r trefniant fel un sy'n darparu ar gyfer cydweithredu sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall, ac sy'n gweithio ar draws nifer o feysydd gweithredol o ran rheoli ffiniau.

**Dechreuodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ei ymchwiliad i ddiwylliant a'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE ar 8 Chwefror.**

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn trafod materion megis effaith y berthynas ar artistiaid sy'n gweithio ar draws ffiniau a'r trefniadau masnachu newydd fel y maent yn ymwneud â gweithgareddau diwylliannol. Mae hefyd yn edrych ar fynediad at ganllawiau a chyllid.

**Bydd Llywodraeth y DU yn cynnal cyfarfod Cymuned Wleidyddol Ewrop ar 18 Gorffennaf ym Mhalas Blenheim.**

# 3. Cysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngseneddol

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

**Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd o dan strwythurau diwygiedig cysylltiadau rhynglywodraethol yn gynnar yn 2024.**

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru ym mis Ionawr (gweler adran 8 i gael rhagor o fanylion);
- Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder ym mis Ionawr (gweler adran 9 i gael rhagor o fanylion);
- Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd ym mis Chwefror;
- Cyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ym mis Ionawr a mis Mawrth;
- Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ym mis Mawrth (gweler adran 2 i gael rhagor o fanylion);
- Cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Chwaraeon yn Glasgow ym mis Mawrth.

Roedd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol i fod i gael ei gynnal ym mis Mawrth, ond cafodd ei ganslo ar gais Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y DU.

**Nid yw Cyngor Prif Weinidog y DU a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig wedi cwrdd ers ei gyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2022.**

Cyfeiriodd y cyn Brif Weinidog at hyn mewn sesiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Ionawr 2024:

> *Wnaeth [Cyngor Prif Weinidog y DU a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig] ddim cwrdd unwaith yn 2023, er gwaetha'r heriau niferus rydyn ni'n gwybod ein bod ni'n eu hwynebu—costau byw ac argyfyngau eraill. Ni chyfarfu'r cyngor hwnnw unwaith.*

**Mae gan yr ysgrifenyddiaeth annibynnol, a fydd yn hwyluso anghydfodau rhynglywodraethol, staff penodedig, ond nid yw pob penodiad wedi'i wneud.**

Mewn llythyr at y Pwyllgor, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei holl benodiadau eto, ond dywedodd ei bod "yn anelu at lenwi'r swydd hon cyn gynted â phosibl".

**Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn parhau â'i ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol.**

Mae galwad y pwyllgor am dystiolaeth wedi cau ac ym mis Mawrth 2024 cynhaliodd sesiwn dystiolaeth gyda Philip Rycroft, cyn was sifil ac aelod o'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

**Mae'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol yn parhau â'i ymchwiliad i Allu Datganoli yn Whitehall.**

Ym mis Ionawr 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn dystiolaeth gyda Syr David Lidington, cyn Weinidog Swyddfa'r Cabinet a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn, a'r Arglwydd Dunlop.

Yn ystod ei sesiwn, canmolodd yr Arglwydd Dunlop y diwygiadau o ran cysylltiadau rhynglywodraethol y cytunwyd arnynt yn 2022, gan ddweud eu bod, yn ei farn ef, yn dda iawn, iawn a'u bod wedi bod yn gam cadarnhaol ymlaen.

Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd sesiwn gyda gweision sifil yn y llywodraethau datganoledig ym mis Ebrill 2024, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, Dr Andrew Goodall. Ymhlith y materion a drafodwyd gan Dr Goodall yn ystod y sesiwn roedd cyswllt ar lefel swyddogol ledled y DU, rôl y swyddfeydd tiriogaethol, strwythurau cysylltiadau rhynglywodraethol, a diweddaru Canllawiau ar Ddatganoli.

## Cysylltiadau rhyngseneddol

**Cynhaliodd y Fforwm Rhyngseneddol ei bumed cyfarfod ym mis Chwefror 2024. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac ymhlith y materion a drafodwyd roedd cysylltiadau rhynglywodraethol o dan y strwythurau diwygiedig, y broses cydsyniad deddfwriaethol, a Phapur Gorchymyn Llywodraeth y DU 'Safeguarding the Union'.**

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, oedd yn cynrychioli'r Senedd yn y cyfarfod.

Ysgrifennodd y Fforwm Rhyngseneddol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol,

Michael Gove AS, i bwysleisio y dylai sefydlu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon olygu bod modd symud ymlaen o ran Fframweithiau Cyffredin.

Yn ei ymateb i'r Fforwm, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod yntau hefyd o'r farn bod cynnydd sylweddol bellach yn bosibl o ran gweithredu'r Fframweithiau Cyffredin. Ychwanegodd fod disgwyl i werthusiad o'r Fframweithiau Cyffredin gael ei gyhoeddi cyn yr haf.

**Cyfarfu Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid am y trydydd tro ym mis Mawrth 2024. Cyhoeddodd y Fforwm ddatganiad ar y cyd yn manylu ar nifer o sesiynau anffurfiol a gynhaliwyd.**

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Peredur Owen Griffiths AS, Peter Fox AS a Mike Hedges AS yn bresennol.

Ysgrifennodd y Fforwm hefyd at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i fynegi siom nad oedd hi na'r Ysgrifennydd Ariannol ar gael i gyfarfod yn anffurfiol, ac i dynnu sylw at bryderon eraill.

# 4. Deddf Marchnad Fewnol y DU

**Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ei hadroddiad blynyddol ar weithrediad marchnad fewnol y DU ar gyfer 2023-2024.**

Mae'r adroddiad yn nodi "mai ychydig iawn o dystiolaeth a gawn, dros y flwyddyn ddiwethaf, o newid sylweddol yn y modd y mae'r farchnad fewnol yn gweithredu ledled y DU", ond yn cydnabod bod "rhai sectorau, yn enwedig bwyd a diod, wedi gweld cynnydd mwy sylweddol o ran gwahaniaethau rheoliadol arfaethedig a gwirioneddol na sectorau eraill". Mae Atodiad C i'r adroddiad yn rhestru meysydd datblygu rheoliadol yn y dyfodol a allai ddod o fewn cwmpas y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys ardollau ymwelwyr, trwyddedu yn y diwydiant twristiaeth a safonau ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat.

**Ym mis Mawrth 2024, trafododd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, Lesley Griffiths AS, ymwahanu posibl yng Nghymru oddi wrth weddill y DU a'r UE mewn perthynas â disgrifio wyau fel wyau maes.**

Cydnabu'r Gweinidog, hyd yn oed pe bai'r rheoliadau marchnata'n wahanol, y byddai wyau sy'n addas i'w gwerthu mewn un rhan o'r DU yn addas i'w gwerthu mewn rhan arall, a hynny oherwydd Deddf y Farchnad Fewnol.

**Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban lythyr a anfonwyd at Lywodraeth y DU ynghylch gwaharddiad ar werthu a meddu ar drapiau glud ar gyfer cnofilod. Mae'r llythyr yn nodi nad yw Llywodraeth y DU yn credu bod yr achos wedi'i wneud dros eithriad ar gyfer gwerthu trapiau glud o dan Ddeddf y Farchnad Fewnol.**

Dywed y llythyr:

> *The decision underlines once again the flawed nature of the Internal Market Act, where the complete absence of any proportionality principle – an essential feature of any well-functioning internal market system – lays bare the glaring inconsistency between the Act's stated purpose and its operation in practice.*

Mae'r llythyr hefyd yn dweud y bydd Gweinidogion yr Alban yn parhau i fynd ar drywydd y mater drwy strwythurau rhynglywodraethol, ac yn mynegi siom nad arweiniodd ymgysylltu ymlaen llaw at ymateb amserol gan Lywodraeth y DU.

**Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban lythyr a anfonwyd at Lywodraeth y DU ynghylch oedi o ran y Cynllun Dychwelyd Ernes.**

Mae'r llythyr yn nodi bod Gweinidogion yr Alban wedi clywed am oedi o ran y Cynllun drwy adroddiadau yn y cyfryngau, ac yn beirniadu penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â chaniatáu eithriad ar gyfer gwydr a hefyd ei diffyg cynnydd o ran datblygu cynllun ers 2023.

# 5. Deddfwriaeth

## Deddfwriaeth y Senedd

**Mae pedwar Bil yn cael eu hystyried gan y Senedd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.**

Mae un Bil yng nghyfnod un:

- Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), a gyflwynwyd ar 11 Mawrth 2024.

Mae dau Fil yng nghyfnod dau:

- Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), y dechreuodd trafodion cyfnod dau ar ei gyfer ar 7 Chwefror 2024; ac
- Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), y dechreuodd trafodion cyfnod dau ar ei gyfer ar 17 Ebrill 2024.

Mae un Bil yng nghyfnod tri:

- Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), y dechreuodd trafodion cyfnod tri ar ei gyfer ar 7 Mawrth 2024.

Yn y ddadl cyfnod pedwar ar 16 Ebrill 2024, pleidleisiodd y Senedd i gymeradwyo'r Bil Seilwaith (Cymru).
Ar 17 Ebrill 2024, pleidleisiodd y Senedd i beidio â chytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).

**Ym mis Chwefror 2024, gosododd Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, Mick Antoniw AS, y nawfed adroddiad blynyddol ar weithredu gan Lywodraeth Cymru gynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru.**

Mae'r adroddiad, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2023 a 14 Chwefror 2024, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, gan gynnwys pasio Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, a chynigion i ddiwygio gwasanaethau tacsis a cherbydau hurio preifat.

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiwygiedig o'i rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ar gyfer 2021-2026.**

Diwygiwyd y rhaglen i ddangos:

- bod y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer cod cyfraith yr amgylchedd hanesyddol bellach yn ei lle, a bod gwaith pellach ar is-ddeddfwriaeth yn mynd rhagddo
- ymrwymiad newydd i greu cod ar gyfer cyfraith gynllunio
- manylion am brosiect newydd i wella trefniadau cyhoeddi is-ddeddfwriaeth
- ymrwymiad i foderneiddio ffurf a strwythur deddfwriaeth, a
- bod rhai elfennau o'r rhaglen wedi eu cwblhau.

# 6. Cydsyniad Deddfwriaethol

**Cyfanswm nifer y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Chweched Senedd bellach yw 110, yn ymwneud â 45 o Filiau'r DU.**

Yn ystod tymor pum mlynedd y Bumed Senedd, trafododd y pwyllgor a ragflaenodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 48 o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, yn ymwneud â 32 o Filiau'r DU.

Cyhoeddwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) ar 30 Ionawr. Mae Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad, y Bil Cyfiawnder Troseddol, y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig a'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion hefyd wedi eu cyhoeddi.

**Pleidleisiodd y Senedd i wrthod rhoi cydsyniad i gymalau mewn dau Fil gan y DU ers yr adroddiad monitro diwethaf.**

Pleidleisiodd y Senedd i wrthod rhoi cydsyniad i 14 cymal yn y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) ar 27 Chwefror 2024. Mae'r Bil hwn yn dal i gael ei ystyried gan Senedd y DU ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Pleidleisiodd y Senedd i wrthod rhoi cydsyniad i un cymal yn y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) ac o blaid rhoi cydsyniad i ddau gymal arall ar 19 Mawrth 2024. Cafodd y Bil y Cydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2024 er bod y Senedd wedi gwrthod rhoi cydsyniad i gymal 2 o'r Bil.

**Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi yn cynnal ymchwiliad o'r enw The Governance of the Union: Consultation, Cooperation and Legislative Consent.**

Hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan amryw o academyddion gan gynnwys Dr Lisa Whitten o Brifysgol Queens Belfast a'r Athro Ciaran Martin o Brifysgol Rhydychen. Clywodd dystiolaeth lafar gan yr Athro Laura McAllister a Dr Rowan Williams ar 17 Ebrill 2024 yn rhinwedd eu swyddi fel Cyd-gadeiryddion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

# 7. Y Cyfansoddiad

**Cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ei adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2024. Mae'r adroddiad yn cynnwys deg argymhelliad er mwyn cryfhau democratiaeth yng Nghymru a diogelu datganoli.**

Yn ei argymhellion, galwodd yr adroddiad am "gamau brys i gryfhau pileri cyfreithiol a gweithdrefnol y berthynas" rhwng llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Roedd yn argymell:

- Y dylai Llywodraeth Cymru gynnig bod Senedd y DU yn deddfu ar gyfer mecanweithiau rhynglywodraethol er mwyn sicrhau "dyletswydd o gydweithredu a pharch cydradd rhwng llywodraethau'r DU".
- Y dylid gwneud Confensiwn Sewel yn un sy'n rhwymo mewn cyfraith ac eithrio mewn amgylchiadau penodol a bennwyd ymlaen llaw gan y llywodraethau.
- Y dylai Llywodraeth y DU "ddileu'r cyfyngiadau" ar reoli cyllideb Llywodraeth Cymru, ac eithrio pan fo goblygiadau macroeconomaidd, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb yn well a chynllunio ar gyfer y tymor hir.

Mae adroddiadau ehangach, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd ac adroddiadau is-grwpiau, hefyd wedi eu cyhoeddi. Ceir rhagor o ddadansoddi yn erthygl Ymchwil y Senedd.

Ym mis Ionawr 2024, gwnaeth y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, ddatganiad llafar ar yr adroddiad.

Nododd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r adroddiad ym mis Mawrth, gan ddweud ei bod yn "derbyn casgliadau ac argymhellion y Comisiwn yn eu cyfanrwydd a fesul un". Wedi hynny, cynhaliodd y Senedd ddadl ar yr adroddiad terfynol a chytunodd i gymeradwyo ei gasgliadau a'i argymhellion.

# 8. Diwygio'r Senedd ac etholiadau

**Mae *Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)* ar hyn o bryd yng nghyfnod tri. Bydd yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Ebrill 2024.**

Cynhaliodd Pwyllgor o'r Senedd Gyfan drafodaeth cyfnod dau ar 5 a 6 Mawrth 2024. Gweler tudalen adnoddau Ymchwil y Senedd i gael rhagor o wybodaeth.

**Cyflwynwyd *Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)* ar 11 Mawrth 2024. Rhaid i'r Pwyllgor Biliau Diwygio gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 7 Mehefin 2024.**

Lansiodd y Pwyllgor Biliau Diwygio ymgynghoriad ar y Bil, a ddaeth i ben ar 12 Ebrill 2024.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiynau tystiolaeth gyda'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS, yn ogystal â rhanddeiliaid megis gweinyddwyr etholiadol, y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, a Phanel Pleidiau Senedd Cymru y Comisiwn Etholiadol .

**Mae'r *Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)* ar hyn o bryd yng nghyfnod dau. Derbyniwyd egwyddorion cyffredinol y Bil ar 6 Chwefror 2024.**

Y dyddiad olaf ar gyfer cwblhau trafodion cyfnod dau yw 17 Mai 2024.

**Cafodd cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru ei gynnal ym mis Ionawr 2024.**

Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd pwysigrwydd hybu gwydnwch a hyder y cyhoedd mewn etholiadau, gweithredu Deddf Etholiadau 2022 a pha mor gyflawn a chywir yw'r gofrestr etholiadol.

# 9. Cyfiawnder

## Cymru

**Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd y Prif Weinidog newydd, Vaughan Gething AS, ei Gabinet newydd.**

Mae cyfrifoldebau am gyfiawnder wedi'u rhannu rhwng gwahanol Aelodau:

- Y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, sy'n gyfrifol am dribiwnlysoedd Cymru, datblygu polisïau prawf a chyfiawnder ieuenctid, a chyswllt â'r sector cyfreithiol a Chyngor Cyfraith Cymru.
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, Rebecca Evans AS, sy'n gyfrifol am bolisi cyfiawnder a'r ymateb i adroddiad y Comisiwn Cyfiawnder.
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, Lesley Griffiths AS, sy'n gyfrifol am lasbrintiau cyfiawnder ieuenctid a throseddwyr benywaidd, cysylltiadau â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, a chysylltiadau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â charchardai a'r gwasanaeth prawf.

**Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad cynnydd ar ei rhaglen i ddiwygio'r system gyfiawnder, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru. Mae dwy ran i'r adroddiad. Mae rhan un yn canolbwyntio ar wella canlyniadau cyfiawnder o dan y setliad cyfansoddiadol presennol, a rhan dau yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer datganoli.**

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, Jane Hutt AS, yn y rhagair fod datganoli cyfiawnder:

> *…yn rhan hollbwysig o'r diwygiadau angenrheidiol sydd angen eu gweithredu os ydym am sicrhau system gyfreithiol a chyfiawnder fodern, blaengar ac effeithiol, ar gyfer pobl Cymru ac yn atebol i bobl Cymru.*

**Cynhaliodd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder ei ail gyfarfod ym mis Ionawr 2024. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor i roi crynodeb o'r materion a drafodwyd.**

Bu’r Grŵp yn trafod sgandal Horizon Swyddfa'r Post, capasiti carchardai, adfer y llysoedd, a'r system cymorth cyfreithiol. Cytunwyd y byddai’r Grŵp yn cyfarfod ymhen pedwar mis.

**Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder ar 7 Chwefror 2024.**

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd y Fonesig Vera Baird CB, Cynghorydd Arbenigol Annibynnol ar Ddatganoli Cyfiawnder. Yn y cyfarfod, croesawyd y “gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud i symud tuag at ddatganoli cyfiawnder” gan yr Is-bwyllgor.

**Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn trafod manteision a risgiau model plismona datganoledig i Gymru.**

Nid yw’r adroddiad yn mynegi barn am rinweddau datganoli plismona, ond yn hytrach mae’n egluro’r materion y byddai angen eu hystyried pe bai plismona yn cael ei ddatganoli.

**Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi dechrau cynnal sesiynau tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i garchardai yng Nghymru.**

Hyd yma, mae’r Pwyllgor wedi clywed gan dystion megis academyddion, Llywodraethwyr y pum carchar yng Nghymru a sefydliadau a busnesau sy’n cynorthwyo carcharorion i ddysgu’r sgiliau angenrheidiol i gael swyddi.

**Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ohebiaeth ddilynol oddi wrth bedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cymru, yn dilyn sesiynau tystiolaeth a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023.**

Mae'r ohebiaeth yn ymwneud ag asesiadau Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu a threfniadau cydweithio ar gyfer plismona yng Nghymru.

**Cyhoeddodd Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru adroddiad, “Tuag at Wasanaeth Prawf Datganoledig yng Nghymru**”.

Mae'r Ganolfan yn gydweithrediad rhwng academyddion o saith prifysgol yng Nghymru. Mae ei haelodau “yn cefnogi gwasanaeth prawf datganoledig sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn well ac yn cynnig papurau a allai fod yn ganllaw at adferiad”.

## Y DU

**Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adolygiad o gymorth cyfreithiol sifil, a gynhaliwyd gan y Tîm Arloesi Agored.**

Edrychodd y Tîm ar chwe system cymorth cyfreithiol sifil arall gyda'r nod o ddod o hyd i ddulliau gweithredu, mentrau a gwersi addawol y gellid eu haddasu ar gyfer y system cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth hefyd newidiadau i brofion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol i bobl sydd wedi dioddef camweinyddiad cyfiawnder, niwed personol neu anaf.

## Yr Alban

**Ym mis Ebrill 2024, daeth mesurau newydd 'i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan gasineb a rhagfarn' i rym yn yr Alban, drwy'r Ddeddf Troseddau Casineb a Threfn Gyhoeddus (yr Alban).**

Mae'r Ddeddf yn creu troseddau newydd ar gyfer ymddygiad bygythiol neu ddifrïol y bwriedir iddo ysgogi casineb ar sail rhagfarn tuag at nodweddion gan gynnwys oedran, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol ac amrywiadau o ran nodweddion rhyw.

# 10. Atodiad: Geirfa

## Post-Brexit framework: key terms

| | |
|---|---|
| International obligations | International duties and commitments of the UK |
| Trade agreements | Establish new trading arrangements between the UK and other countries |
| International agreements | Agreements between the UK and other countries or organisations |
| UK-EU Trade & Cooperation Agreement | Establishes the new UK-EU relationship |
| UK-EU Withdrawal Agreement | Sets the terms of the UK's exit from the EU |
| Protocol on Ireland-Northern Ireland | Part of the Withdrawal Agreement to avoid a hard border on the island of Ireland |
| EU (Withdrawal) Act 2018 | Converted EU law to domestic law, stops new EU laws having automatic effect in the UK and gives Ministers powers to correct the statute book after leaving the EU |
| EU (Withdrawal Agreement) Act 2020 | Implements the Withdrawal Agreement |
| EU (Future Relationship) Act 2020 | Implements the Trade & Cooperation Agreement |
| Internal Market Act 2020 | Establishes rules for the regulation of goods, services and qualifications across the UK |
| Common Frameworks | Set up UK-wide frameworks for some areas previously governed by the EU |
| Implementing regulations | Regulations passed in the Senedd or UK Parliament to implement the new arrangements |
| Correcting regulations | Regulations passed in the Senedd or UK Parliament to make EU laws retained after leaving the EU workable in a domestic context |

Welsh Parliament
**Senedd Research**